**PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL EOC-05-02(p6)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 26 Mehefin 2002 |
| **Amser:** | 9.30am |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 3 a 4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |
| **Teitl:** | Cylch Gwaith y Pwyllgor Cyfle Cyfartal |

**Diben**

1. Ystyried a ddylid ymestyn cylch gwaith y pwyllgor i gynnwys hawliau dynol.

**Y Cefndir**

2. Fis Hydref diwethaf, fe ystyriodd y pwyllgor bapur gan yr ysgrifenyddiaeth yn ymwneud ag ymestyn ei gylch gwaith i gynnwys hawliau dynol. Amgaeir copi o'r papur (EOC 07-01(p5)) yn atodiad 1.

3. Barn y pwyllgor oedd y gallai ymestyn ei gylch gwaith niwlo ei ganolbwynt, yn enwedig gan fod Gweinidog gwahanol yn gyfrifol am faterion hawliau dynol yn y Cynulliad. Roedd hawliau dynol yn ymwneud â chydymffurfio â'r gyfraith tra bod cyfle cyfartal yn mynd i'r afael â'r problemau sy'n wynebu grwpiau dan anfantais. Nid oedd y pwyllgor am dynnu ei sylw oddi ar archwilio polisïau a oedd yn hyrwyddo cydraddoldeb, i gadw llygad ar y broses o gynnal hawliau unigolion. Roedd system drawsbleidiol yn ofynnol i sicrhau bod y Cynulliad yn cydymffurfio â'i oblygiadau o ran Hawliau Dynol ac mai'r Pwyllgor Deddfau, o bosibl, fyddai yn y sefyllfa orau i gyflawni'r rôl hon.

4. Ers hynny, nododd yr adroddiad Adolygu Gweithdrefnau'r Cynulliad bod y Pwyllgor Cyfle Cyfartal wedi ystyried a ddylid ymestyn ei gylch gwaith i gynnwys hawliau dynol ond ei fod wedi penderfynu peidio. Roedd yr adroddiad yn argymell y dylai'r pwyllgor ailystyried ei benderfyniad ar y cynnig i ymestyn ei gylch gwaith i gynnwys hawliau dynol. Amgaeir dyfyniad allan o adran berthnasol Adroddiad Adolygu Gweithrefnau'r Cynulliad yn atodiad 2.

**Y Sefyllfa Bresennol**

5. Mae'r newidiadau diweddar i gyfrifoldebau'r gweinidogion yn golygu mai'r Gweinidog dros Lywodraeth Agored sydd bellach yn gyfrifol am gyfle cyfartal a hawliau dynol.

**Argymhelliad**

6. Dylai'r pwyllgor ystyried eto a ddylid ymestyn ei gylch gwaith i gynnwys hawliau dynol.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau**

**Mehefin 2002**